

MOSTYN

MOSTYN yn chwilio am Reolwr Dyngarwch

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr esboniadol byr at: alfredoc@mostyn.org
I gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, ffoniwch Alfredo Cramerotti ar 07941 470145
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Iau 12 Mawrth 2020, 5pm.

MOSTYN, Cymru UK

12 Stryd Vaughan
Llandudno
LL30 1AB

Ffôn +44 (0)1492 879201
post@mostyn.org

www.mostyn.org

Instagram: [@mostyngallery](https://www.instagram.com/mostyngallery/) / [@mostynexhibitions](https://www.instagram.com/mostynexhibitions/)

Facebook: [@mostyngallery](https://www.facebook.com/mostyngallery/)

Twitter: [@mostyn_wales_](https://twitter.com/mostyn_wales_)

Math o Swydd: Contract llawrydd 2 flynedd (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2022)
ddim yn gyfyngedig, gellir ei adnewyddu

Ffi flynyddol: £14,000 y flwyddyn

Yn atebol i'r: Rheolwr Partneriaethau

Cyfrifoldebau: Llunio a gweithredu strategaeth rhoddion ar gyfer unigolion a chorfforaethau ar ran MOSTYN
Rheoli perthynas MOSTYN gydag aelodau, noddwyr, rhoddwyr a noddwyr corfforaethol
Darparu cymorth busnes yng nghyswllt arddangosfeydd, y rhaglen i'r cyhoedd a'r rhaglen ymgysylltu

Dyddiad cau: Dydd Iau 12 Mawrth 2020

Dyddiad y cyfweiliad: Yr wythnos sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020

Pwrpas:

Datblygu cyfleoedd i gael ffrydiau incwm ychwanegol, gan gynnwys Rhoddion gan Unigolion / Corfforaethau a Chynlluniau Nawdd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Manyleb y person:

Meddwl yn strategol

Unigolyn entrepreneuraidd sy'n dda am rwydweithio

Rhifog a medrus o ran TG

Proffil:

Mae'r swydd yn addas i rywun sydd ag o leiaf bum mlynedd o brofiad o godi arian yn llwyddiannus ym meysydd y Celfyddydau, Elusennau neu Addysg. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad amlwg o greu incwm sylweddol, datblygu perthnasoedd â rhoddwyr a chyflawni targedau. Gydag addysg hyd at lefel gradd yn ddelfrydol, bydd yr ymgeisydd yn gallu defnyddio dulliau entrepreneuriaidd ac yn gallu meddwl a gweithredu'n strategol. Bydd hefyd yn gallu ymgysylltu ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol, a bydd ganddo sgiliau cyfathrebu ardderchog, ar lafar ac yn ysgrifenedig, er mwyn sicrhau bod rhoddwyr posibl yn ymgysylltu â gwaith MOSTYN.

Disgrifiad o'r Swydd

Dyma swydd newydd sy'n gyfle cyffrous i godwr arian profiadol alluogi'r oriel i gyflawni ei gweledigaeth a'i chenhadaeth. Mae MOSTYN yn comisiynu ac yn cyflwyno arddangosfeydd celf gyfoes, ac yn cynnal perfformiadau, digwyddiadau sgrinio a sgysiau ag artistiaid, yn ogystal â thrafodaethau a gweithdai seiliedig ar faterion pwysig. Mae MOSTYN yn croesawu grwpiau cymunedol ac ysgolion ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen arloesol sy'n apelio at bob cynulleidfa. Cefnogir MOSTYN gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Tref Llandudno, ac mae angen sicrhau incwm ychwanegol i'r oriel drwy gymorth dyngarol.

Disgwylir i'r Rheolwr Dyngarwch ddenu a sicrhau incwm i gefnogi costau cynnal parhaus MOSTYN, yn ogystal â'i rhaglen uchelgeisiol o arddangosfeydd a digwyddiadau i'r cyhoedd. Er mwyn gwneud hyn, bydd deiliad y swydd yn creu ac yn rheoli portffolio sy'n cynnwys rhoddion mawr gan gefnogwyr unigol a chorfforaethol; rhoddion rheolaidd drwy gynllun Noddwyr sydd ar gynydd; ac incwm drwy bartneriaethau busnes a ffynonellau mewn sectorau eraill.

Bydd gan ddeiliaid y swydd o leiaf bum mlynedd o brofiad o godi arian ym maes y Celfyddydau neu Addysg, a bydd ganddo ddull entrepreneuriaidd o godi arian. Bydd hefyd yn rheoli rhanddeiliaid ar bob lefel mewn modd ystyriol a ddiplomataidd, yn ogystal â meddwl a gweithredu'n strategol er mwyn creu incwm sylweddol a chyflawni targedau. Gyda tharged o £75,000 (ar gyfer y flwyddyn gyntaf), a fydd yn cynyddu i £150,000 a mwy bob blwyddyn, bydd deiliad y swydd yn datblygu perthnasoedd ag unigolion a sefydliadau sy'n gallu talu rhoddion pedwar a phum ffigur, yn ogystal â datblygu cefnogaeth ar lefel is drwy roddion rheolaidd. Disgwylir y bydd y cyllid yn dod gan ffynonellau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Bydd y Rheolwr Dyngarwch yn datblygu rhaglen codi arian sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y sefydliad. Bydd yn cydweithio'n agos â'r Rheolwr Partneriaethau, y Cyfarwyddwr a'r Tîm Curadu. Fel rhan o'r Tîm Codi Arian, bydd yn helpu i ddatblygu system i reoli'r gwaith codi arian, a fydd yn cynnwys ymchwilio i bosibiliadau, cronfa ddata, calendr codi arian a gwasanaethau cymorth gweinyddol eraill.

Byddai medru'r iaith Gymraeg a bod yn gyfarwydd ag ardal Gogledd Cymru yn cael eu hystyried yn fanteision. Gall lleoliad y swydd fod yn hyblyg ond bydd angen teithio i Ogledd Cymru yn rheolaidd. Bydd cyllideb ar gyfer teithio yn cael ei darparu ar gyfer hyn.

Prif ddyletswyddau:

Strategol

Arwain ac annog cymorth dyngarol ar gyfer MOSTYN.

Gweithio gyda'r Rheolwr Partneriaethau a'r Cyfarwyddwr i ddatblygu strategaethau a chynlluniau i gyflawni targedau cynhyrchu incwm y cytunir arnynt.

Datblygu a chynnal rhwydwaith graidd o gefnogwyr o fewn amserlen y cytunir arni, a chodi proffil MOSTYN drwy eirioli yng nghyswllt ei raglen artistig.

Sicrhau bod yr holl dulliau wedi'u cynllunio'n dda a'u cydlynu gyda Tîm Codi Arian a Tîm Curadu MOSTYN.

Gweithredol

Datblygu a Denu Rhoddwyr Mawr:

Canfod, cynllunio a gweithredu dulliau ymgysylltu pwrpasol ar gyfer portffolio o roddion a rhoddwyr mawr, gan gynnwys unigolion a phartneriaid corfforaethol, gan weithio gyda chydweithwyr uwch lle bo hynny'n berthnasol er mwyn sicrhau incwm.

Cyflawni portffolio personol o incwm gan roddwyr mawr a chanolig, gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoli drwy gylch perthnasoedd – cyflwyno, rhoi, diolch a stiwardiaeth.

Llunio a rheoli cronfa ddata effeithiol o Gefnogwyr a Rhoddwyr Craidd, gan amlygu galwadau i weithredu posib i'r tîm priodol ym MOSTYN, a threfnu digwyddiadau denu / stiwardiaeth priodol a chyfleoedd i roddwyr – ym MOSTYN neu mewn lleoliadau eraill.

Llunio a chynhyrchu cynigion, ceisiadau a deunydd cadw i roddwyr, sy'n effeithiol, yn berthnasol ac yn brydlon.

Trefnu a rheoli cyfleoedd a digwyddiadau meithrin a stiwardiaeth o ansawdd uchel i roddwyr a chyfleoedd i'r oriel – ym MOSTYN neu mewn lleoliadau eraill.

Sicrhau bod yr holl gytundebau rhodd, y cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth a'r amserlenni talu yn cael eu cwblhau a'u cofnodi ar gronfa ddata'r rhoddwyr.

Datblygu a Denu Incwm Digyfyngiad:

Llunio, ysgogi a thyfu grŵp o Gefnogwyr Craidd sy'n cyflwyno rhoddion rhwng £500 a £3,000, gan annog prosesau recriwtio a sicrhau eu bod yn gyson â gweithgareddau codi arian eraill MOSTYN.

Sicrhau bod yr holl gytundebau cefnogi, y cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth a'r taliadau wedi'u cyflawni a'u cofnodi ar gronfa ddata'r rhoddwyr.

Helpu'r Cyfarwyddwr, y Tîm Curadu a'r Tîm Adwerthu i ddatblygu gweithgareddau creadigol eraill i godi arian, fel printiau cyfyngedig arbennig, nifer cyfyngedig o nwyddau gan artistiaid, ac ati.

Goruchwylio rhestr gynhwysfawr a phriodol o westeion, gan sicrhau bod dulliau cyfathrebu a gwahoddiadau yn cael eu llunio a'u dosbarthu'n briodol, mewn cydweithrediad â'r Tîm Curadu a'r Tîm Cysylltiadau Cynulleidfaoedd.

Cyflwyno gwybodaeth i gydweithwyr a gwirfoddolwyr ac ymgysylltu â nhw mewn digwyddiadau / stiwardiaeth.

Yn yr un modd â'r holl swyddogion eraill, disgwylir y bydd y Rheolwr Dyngarwch yn:

- Cydymffurfio â holl systemau, polisiau a gweithdrefnau MOSTYN
- Sicrhau diogelwch yr oriel a manau eraill ym MOSTYN
- Gweithio fel eiriolwr ar ran MOSTYN gan hyrwyddo ei weledigaeth a'i weithgareddau

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau. Efallai y bydd angen ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon yn llwyddiannus a diwallu nodau'r sefydliad.

Gwybodaeth am MOSTYN

Mae MOSTYN yn cyflwyno celf a diwylliant rhyngwladol ein hoes, gan symbylu bywydau pobl drwy arddangosfeydd, rhaglenni diwylliannol a gweithgareddau masnachol. Hon yw oriel a chanolfan celfyddydau gweledol amlycaf Cymru. Mae wedi'i lleoli ar dref glan môr Llandudno ac mae'n fforwm i ffurfio a rhannu safbwyntiau newydd drwy arferion artistig a churadurol, yn ogystal â chyfluoedd i ymgysylltu â chynulleidfaedd. Mae'n rhan o PlusTATE, rhwydwaith celf gyfoes weledol ledled y DU.

Mae MOSTYN yn cynnig arddangosfeydd o fri, rhaglenni dysgu ac addysg sy'n ysbrydoli, yn ogystal â gwasanaethau arlwy, manwerthu a gofod i'w logi. Mae ein sefydliad cwbl hygyrch a dwyieithog yn denu tua 80,000 o ymwelwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol bob blwyddyn. Mae MOSTYN yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru'r Elusen: 507842) sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac yn cael incwm ychwanegol drwy godi arian gan ffrydiau cyllido cyhoeddus a phreifat, a gweithrediadau masnachol.

Ein Cenhadaeth

Mae MOSTYN yn cyflwyno celf gyfoes ryngwladol o fri, sy'n ymgysylltu, yn denu, yn ysbrydoli ac yn annog pobl i lunio a rhannu safbwyntiau newydd ar y byd drwy ei raglenni.

Ein Gweledigaeth

- Creu arddangosfeydd celf gyfoes rhagorol sydd o bwys rhyngwladol.
- Ymgysylltu â chynulleidfaedd amrywiol a'u hysbrydoli a'u datblygu i lunio safbwyntiau newydd ar y byd drwy lens celf gyfoes yn sgil rhaglenni arddangos, dysgu, digidol a chyhoeddus
- Meithrin, cefnogi a hybu artistiaid o Gymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Bod yn sefydliad celfyddydol cadarn, cynaliadwy ac uchelgeisiol sydd â chysylltiadau rhyngwladol
- Bod yn rhan o gymuned ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru, a chyfrannu ati

Ein Gwerthoedd

- Rydyn ni'n arddangos rhagoriaeth artistig, yn cefnogi artistiaid o Gymru ac o bob cwr o'r byd, ac yn meithrin datblygiad talent artistig ar bob lefel.
- Rydyn ni'n canolbwyntio ar gynulleidfaedd ac yn sicrhau bod pob rhaglen yn hygyrch ac yn cael eu datblygu i ymgysylltu â chynulleidfa eang ac amrywiol
- Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein rôl yn ein cymuned o ran cyfrannu at wead diwylliannol, cymdeithasol, economaidd a dinesig Gogledd Cymru.

Mae MOSTYN wedi ymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth ac mae'n ceisio rhoi cyfle i'r holl staff gael gwaith, gyrfa a datblygiad personol ar sail gallu, cymwysterau ac addasrwydd i'r gwaith, yn ogystal â'u potensial i gael eu datblygu ar gyfer y swydd.

Rydyn ni'n credu bod pobl o wahanol gefndiroedd yn gallu cyflwyno syniadau, dulliau a ffyrdd o feddwl newydd, sy'n gwneud y modd caiff gwaith ei gyflawni yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Ni fydd MOSTYN yn goddef gwahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol ar sail oedran, anabled, rhywedd / ailbennu rhywedd, priodas / partneriaeth sifil, beichiogrwydd / mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol – boed hynny ym maes recriwtio, telerau ac amodau cyflogaeth, datblygiad gyrfa, hyfforddiant, trosglwyddo neu ddiswyddo.

Mae hefyd yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff – yn eu gweithredoedd, eu penderfyniadau a'u hymddygiad o ddydd i ddydd – i ymdrechu i hyrwyddo'r cysyniadau hyn, i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn cydweithwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr nac unrhyw berson arall sy'n ymwneud â MOSTYN.